Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant

**Cynnydd gyda Pholisi**

**Noddwyd gan Mark Isherwood AC a Bethan Sayed AC**
**18 Gorffennaf 2018, 12:00 – 13:30**
**Ystafell Briffio'r Cyfryngau, Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Mark Isherwood AC (Cyd-gadeirydd)
Bethan Sayed AC (Cyd-gadeirydd)
Jane Hutt AC
David Rowlands AC
Gwendolyn Sterk - Cymorth i Ferched Cymru (ysgrifenyddiaeth)
Joanne Hopkins – Y Swyddfa Gartref (siaradwr)
Nazir Afzal - Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (siaradwr)
Catherine Phillips - Cymorth i Ferched Cymru (siaradwr)
Helen Jones - Atal y Fro
Morgan Fackrell Cymorth i Ferched Cymru.
Vivienne Laing NSPCC.
Elinor Crouch-Puzey - Cymorth i Fenywod Caerdydd
Frances Beecher - Llamau
Sarah Thomas – Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched
Rebecca Powell – Y Swyddfa Gartref Cymru
Gauri - SEEdS
Julie - SEEdS
Hilary - SEEdS

**Ymddiheuriadau:**
Simon Thomas AC
Sophie Howe - Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Yvonne Jardine
Lynne Sanders - Cymorth i Fenywod Abertawe
Sian Morgan - Hafan Cymru

| **Cofnodion** |
|---|
| Ac yntau'n cadeirio, fe gadarnhaodd Mark Isherwood AC fod cofnodion wedi cael eu dosbarthu cyn y cyfarfod. |

**Siaradwyr:**
*Jo Hopkins, Swyddfa Gartref Cymru*
Diweddariad ar ymgynghoriad Llywodraeth y DU, Trawsnewid yr ymateb i Gam-drin Domestig

*Nazir Afzal, Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol*
Yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ar weithredu Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru 2016-2021

*Catherine Phillips, Cymorth i Ferched Cymru*
Diweddariad ar bolisi a darpariaeth cymorth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i Blant a Phobl Ifanc

**Trafodaeth:**

**Ymgynghoriad Cam-drin Domestig:** Rhoddodd Jo Hopkins ddiweddariad i'r grŵp ar yr ymgynghoriad diweddar, gan nodi ei fod yn adeiladu ar y cynigion a'r ymrwymiadau a wnaed gan y Prif Weinidog ym mis Chwefror 2017. Y prif feysydd a drafodwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn oedd:

- Gorchmynion amddiffyn
- Niwed i blentyn
- Creu comisiynydd Cam-drin Domestig
- Ymrwymiad i gadarnhau Confensiwn Istanbul

Roedd yr ymgynghoriad wedi'i rannu'n 4 thema:

- Hybu ymwybyddiaeth o Gam-drin Domestig, sicrhau bod cam-drin domestig ar ben agenda pawb, a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol
- Diogelwch y goroeswr
- Ymlid a rhwystro – darparu ymateb effeithiol i ddrwgweithredwyr
- Gwella perfformiad a gwell ymateb ar draws ardaloedd lleol

Cynhaliwyd digwyddiadau yng Nghymru fel rhan o'r broses ymgynghori, gan gynnwys sesiynau a gynhaliwyd gan Cymorth i Ferched Cymru gyda goroeswyr a gwasanaethau a sesiwn gyda thîm Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gwent a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys ar brofiadau pobl hŷn o gam-drin a sesiwn gan Respect UK a Cymorth i Ferched Cymru ar ymatebion i droseddwyr.

Mae'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r adborth yn cynnwys:

- Beirniadaeth nad yw'r diffiniad yn cynnwys trais rhywiol
- Pryderon ynghylch cylch gwaith y Comisiynydd Trais Domestig
- Angen am gyllid digonol
- Anghysonderau rhwng llysoedd teulu a llysoedd troseddol
- Heriau sy'n ymwneud ag amodau mechnïaeth i ddrwgweithredwyr a diffyg ôl-effeithiau pan fo mechnïaeth yn cael ei thorri.

Y camau nesaf:
Cafwyd 3200 o ymatebion gan oroeswyr a sefydliadau yn y sector sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Hefyd, mae adborth o'r digwyddiadau ymgynghori yn cael ei ystyried fel rhan o'r ymateb

cyffredinol. Nid oes dyddiad wedi'i gadarnhau ar gyfer yr ymateb gan Lywodraeth y DU a'r bil drafft hyd yn hyn. Amlygwyd y bydd cwestiynau ynghylch sut y bydd y bil yn gweithio yng Nghymru yng nghyd-destun Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a Chynghorwyr Cenedlaethol.

**Diweddariad ar y Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**
Cadarnhaodd Nazir Afzal, y Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, fod pryderon ynghylch cyflymder cyflwyno Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, yn arbennig o ran datblygu dangosyddion cenedlaethol. Cadarnhaodd Nazir y bydd dangosyddion drafft yn cael eu cyhoeddi cyn y Nadolig ar gyfer ymgynghori.

Fe wnaeth y ddau Gynghorydd Cenedlaethol annerch y Cabinet ynghylch Confensiwn Istanbul ac maent wedi dweud eu bod yn credu y gall Cymru arwain y ffordd o ran cadarnhau cyn gweddill y DU.

Amlygodd Nazir bryderon ynghylch llywodraethu a gofynion diweddar a osodwyd ar Lywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys;

1. Cafodd grŵp arweinyddiaeth strategol sy’n cynnwys yr holl adrannau, gydag ymrwymiad y bydd uwch unigolion yn rhan ohoni, ei gynnig i'r Cabinet.
2. Grŵp arbenigol sy'n cynorthwyo'r Llywodraeth i gyflawni ei hymrwymiadau
3. Grŵp rhanddeiliaid a ddylai fod yn adlewyrchiad o ddaearyddiaeth Cymru a cheisio newid loteri codau post gwasanaethau mewn gwahanol rannau o'r wlad

**Plant a Phobl Ifanc** Rhoddodd Catherine Phillips, Cymorth i Ferched Cymru, ddiweddariad i’r grŵp ar gamau gweithredu diweddar a datblygiadau polisi sy'n berthnasol i Blant a Phobl Ifanc. Cadarnhaodd fod grwpiau ffocws wedi'u cynnal gyda SEEds a oedd yn adleisio'r pryderon a godwyd yn yr ymgynghoriad ar y Bil Cam-drin Domestig ynghylch y llysoedd teulu, gyda hyfforddiant, yn arbennig o ran rheolaeth drwy orfodaeth, yn sylfaenol i welliant.

Nododd fod y camau arfaethedig i gyflwyno Addysg Rhyw a Chydberthynas erbyn 2022 yn ddatblygiad sydd i’w groesawu ond yn gofynnodd sut y bwriedir mesur hyn a sicrhau ei bod yn rhan o'r dull cyffredinol o gyflwyno addysg. Roedd bwriad Llywodraeth Cymru i roi terfyn ar gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru’n ddatblygiad i’w groesawu hefyd ac roedd aelodau Grŵp Trawsbleidiol wedi cyfrannu at yr ymgynghoriad.

Rhoddodd Catherine ddiweddariad i’r grŵp ar y gynhadledd ddiweddar ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a rhoddodd enghraifft o ysgol sydd wedi mabwysiadu’r dull Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, gan gynnwys rhoi terfyn ar waharddiadau a gweithio i amserlen lai wrth gefnogi'r plentyn.

Diweddodd y cyflwyniad gydag adborth o weithdy Cynhadledd Rhywedd Unity Youth ar stereoteipiau rhyw a rhywiaeth lle bu pobl ifanc yn siarad am stereoteipiau nodweddiadol ynglŷn â dynion benywaidd a gwrywaidd a'r niwed y gallai hyn ei achosi. Yna rhannodd y disgyblion yr hyn yr oeddent hwy am ei alw'n 'Times Up', ac roedd rhai o'r syniadau'n cynnwys; defnyddio hoyw fel sarhad, sylwadau rhywiaethol, hiliaeth, jôcs am dreisio a rhywiaeth yn y cyfryngau.

**Cwestiynau / sylwadau o'r llawr –** Roedd y themâu allweddol yn cynnwys;

Comisiynu a'r pŵer sydd gan dimau caffael mewn awdurdodau lleol. Codwyd y ffaith bod pocedi o arfer da wrth gomisiynu ond nad oedd hyn yn gyson ar draws ardaloedd awdurdodau lleol. Nodwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau comisiynu gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ond bod angen sicrhau bod awdurdodau lleol, yn enwedig arweinwyr caffael, yn mynd mor bell â'u defnyddio i'r gwneud yn bosibl sicrhau darpariaeth gynaliadwy.

Pwysigrwydd fframwaith mewn perthynas â mechnïaeth i gryfhau'r ddadl dros beidio â rhoi mechnïaeth i droseddwyr peryglus yn ogystal â pheidio â chynnwys rheolaeth orfodol ar geisiadau yn ôl yr un gyfradd â cham-drin corfforol. Hefyd, ceir anghysondeb rhwng yr hyn a orchmynnir yn y llys a'r hyn sy'n cael ei gadarnhau gan yr Heddlu. Mae hyn yn arwain at ddiffyg hyder yn y system gan oroeswyr.

Mae Llysoedd Trais Domestig Arbenigol wedi cael eu lleihau'n sylweddol yng Nghymru. Cadarnhaodd Jo Hopkins fod gwaith ar y gweill i edrych ar ddarpariaeth Llysoedd Trais Domestig Arbenigol yng Nghymru a'i bod yn awyddus i gynnwys lleisiau goroeswyr a'r sector.

Amlygwyd bylchau yn y Fframwaith Darparu a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac roedd y rhain yn cynnwys y pryderon ynghylch rhoi'r gorau i'r trefniant clustnodi ar gyfer gwasanaethau Cefnogi Pobl. Cadarnhaodd Nazir mai dogfen waith yw hon a bod adborth yn cael ei groesawu.

Tynnodd Bethan Sayed AC sylw at yr ymchwiliad cyhoeddus i Heddlu cudd a oedd yn ffurfio perthynas ag ymgyrchwyr benywaidd. Mae hi'n poeni am y cynnydd araf a'r angen i fwy o Aelodau'r Cynulliad lofnodi'r llythyr a ddosbarthwyd.

**Camau i'w cymryd:**

Cytunodd y grŵp y bydd llythyr at Alun Davies AC yn cael ei ddrafftio ynglŷn â chaffael mewn awdurdodau lleol.

Cytunodd y grŵp i rannu'r llythyr am yr ymchwiliad cyhoeddus i Heddlu cudd gydag aelodau i annog mwy o Aelodau i gefnogi a llofnodi.

**Y Cyfarfod Nesaf: Lleisiau Gorosewyr - 17 Hydref 2018**

**Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol a daeth y cyfarfod i ben am 13:30.**